Law Commission
Reforming the law

# Atafaelu Enillion Troseddu yn Dilyn Euogfarn

## Crynodeb o'r Adroddiad



# Cyflwyniad

Yn 2018, cytunodd Comisiwn y Gyfraith â'r Swyddfa Gartref i adolygu'r drefn atafaelu yn dilyn euogfarn a gynhwysir yn Rhan 2 Deddf Enillion Troseddau 2002 ("POCA 2002"). Nod yr adolygiad oedd symleiddio, egluro a moderneiddio'r gyfraith ar atafaelu.

Dechreuodd y gwaith ar y prosiect ym mis Tachwedd 2018. Ers i'r prosiect ddechrau, bu'r rhanddeiliaid bron yn unfrydol o'r farn bod problemau o ran geiriad a gweithrediad Rhan 2 Deddf Enillion Troseddau 2002.

Ar 17 Medi 2020, cyhoeddwyd **y papur** ymgynghori. Roedd y papur ymgynghori'n cynnwys dros 100 o gynigion dros dro a chafwyd dros 100 o ymatebion gan randdeiliaid o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys bargyfreithwyr troseddol, cyrff proffesiynol, aelodau o'r farnwriaeth, asiantaethau erlyn, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, ymchwilwyr ariannol, academyddion, diffynyddion, cyfreithwyr, Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi, staff y llys, cwmnïau arwerthiant a derbynyddion.

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, aethom ati i gynnal dadansoddiad cynhwysfawr o'r ymatebion, ac ym mis Hydref 2022, roeddem wedi cyhoeddi **ein hadroddiad terfynol**, sy'n rhoi manylion y diwygiadau rydym wedi'u hargymell.

**"Mae Deddf Enillion Troseddau 2002 (POCA) yn cael ei hystyried yn ddarn o ddeddfwriaeth ddraconaidd ac mae taer angen ei ddiwygio ... rydym yn croesawu'r adolygiad o'r ddeddfwriaeth hon gan ei bod yn effeithio ar fywydau cynifer o ddiffynyddion, a hefyd eu teuluoedd"[1]**



1 Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai mewn ymateb i'n hymgynghoriad.

## Sut i ddefnyddio'r crynodeb

Bwriad y crynodeb hwn yw rhoi trosolwg o'n prif argymhellion. Yn hytrach nag atgynhyrchu strwythur yr adroddiad terfynol, mae'r crynodeb hwn wedi'i drefnu o amgylch y prif amcanion polisi sydd wedi llywio ein diwygiadau arfaethedig i'r drefn atafaelu, sef: **od y drefn atafaelun**, **effeithlonrwydd**, **gorchmynion realistig**, **gorfodi effeithiol**, **hyblygrwydd**, **tegwch**, **symleiddio**. Mae manylion llawn y drefn rydym yn ei hargymell, ynghyd â'r drafodaeth ar y materion polisi perthnasol, i'w gweld yn yr **adroddiad terfynol**. Mae ein hadroddiad terfynol wedi'i rannu'n wyth rhan:

Cyflwyniad

Rhan 1 – Amcan y Ddeddf

Rhan 2 – Paratoi ar gyfer y Gwrandawiad Atafaelu

Rhan 3 – Budd

Rhan 4 – Swm Adferadwy

Rhan 5 – Gorfodi

Rhan 6 – Ailystyried

Rhan 7 – Cadw Gwerth Asedau

Rhan 8 – Materion yn ymwneud â'r Gorchymyn ar ôl Atafaelu

# Nod y drefn atafaelu

Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth gyffredinol yn Rhan 2 Deddf Enillion Troseddau 2002 sy'n pennu nod y drefn atafaelu. Mae hyn wedi creu nifer o awdurdodau gwrthdrawiadol o ran beth ddylai pwrpas atafaelu fod. Mae llysoedd wedi rhoi disgrifiadau amrywiol o nodau'r ddeddfwriaeth, fel amddifadu o fuddion troseddol, ataliaeth, amharu ar droseddu a hyd yn oed cosb.

Credwn y byddai gosod nod y gyfundrefn ar sail statudol nid yn unig yn fodd i sicrhau bod llysoedd yn arfer eu pwerau dan POCA 2002 gyda golwg ar gyflawni'r nod hwn, ond hefyd yn darparu eglurder a chysondeb o ran pwrpas y gyfundrefn. Mae'n bwysig egluro nod y drefn hefyd er mwyn sicrhau bod gorchmynion atafaelu yn **gymesur â'r nod a geisir**. Gan fod cymesuredd gorchmynion atafaelu yn cael ei fesur mewn perthynas â'r nod y dylai'r drefn atafaelu ei gyflawni, mae diffyg eglurder ynglŷn â'r nod yn cymhlethu'r asesiad o p'un a yw gorchymyn atafaelu yn gymesur. Mae cymesuredd gorchmynion atafaelu'n hanfodol hefyd i sicrhau bod ymyriadau ag **Erthygl 1 Protocol 1 (hawl i eiddo)** ac **Erthygl 8 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl i gael bywyd preifat a theuluol, yn cynnwys yr hawl i gael cartref** yn rhai cyfreithlon. Yn hynny o beth, mae gosod nod y gyfundrefn atafaelu ar sylfaen statudol yn helpu i sicrhau bod achosion atafaelu'n cydymffurfio â'r fframwaith hawliau dynol.

Rydym yn argymell y dylai amcan datganedig y drefn fod yn un sy'n **amddifadu diffynyddion o'u budd o ymddygiad troseddol, o fewn terfynau eu modd**.

Bydd hyn yn sicrhau y bydd y drefn atafaelu'n canolbwyntio ar adfer enillion o droseddu, a thrwy hynny yn dal y diffynnydd i gyfrif am ei enillion troseddol. Ni fwriedir i orchmynion atafaelu gosbi'r diffynnydd, felly nid ydym yn argymell y dylai cosb fod yn un o amcanion y drefn.



# Effeithlonrwydd



Un o brif themâu ein diwygiadau arfaethedig yw gwella effeithlonrwydd y drefn atafaelu. Mae achosion atafaelu, oherwydd eu natur, yn hir a chymhleth. Clywsom gan ymgyngoreion fod achosion POCA 2002 yn llawn aneffeithlonrwydd. Felly, gwnawn rai argymhellion gyda'r nod o greu trefn fwy effeithlon, gyda'r bwriad o gynhyrchu achosion cyflymach a fyddai'n sicrhau bod gorchmynion atafaelu'n cael eu gwneud yn brydlon. Cyflawnir hyn drwy fframwaith sy'n sicrhau rheolaeth achos weithredol a chydweithrediad rhwng y partïon drwy:

1. **Gyflymu'r broses o bennu amserlen atafaelu.** Rydym yn argymell y dylai'r diffynnydd gael ei ddedfrydu cyn bod achosion atafaelu yn cael eu datrys, oni bai fod y llys yn cyfarwyddo fel arall. Er mwyn osgoi "drifft" mewn achosion atafaelu, sy'n gadael diffynyddion (ac sy'n aml yn eu digolledu) yn disgwyl am gyfnodau estynedig o amser ar gyfer datrys yr achos atafaelu'n derfynol, rydym yn argymell bod achosion atafaelu yn cael eu cychwyn o fewn cyfnod penodedig ac yn cael eu rheoli'n weithredol. I'r perwyl hwn, rydym yn argymell y dylai amserlen ar gyfer achosion atafaelu gael ei godi fel mater gerbron y llys erbyn diwedd y gwrandawiad dedfrydu.



2. **Hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng yr erlyniad a'r amddiffyniad.** Credwn y bydd proses fwy ffurfiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn gwella effeithlonrwydd achosion atafaelu. Felly, rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol ddarparu amserlenni ar gyfer darparu gwybodaeth. Credwn y dylid teilwra amserlenni yn unol â chymhlethodd achosion. Felly, rydym yn argymell amserlenni gwahanol, yn dibynnu ar a yw'r achos wedi'i gategoreiddio'n "gymhleth" neu "ddim yn gymhleth" ar sail rhestr o feini prawf. Rydym hefyd yn argymell y dylai datganiad gwybodaeth yr erlyniad gael strwythur penodol (gan gynnwys dadl fframwaith, datganiad ariannol, tystiolaeth y dibynnir arni yn ogystal â'r materion cyfreithiol dan sylw) a bod ymateb yr amddiffyniad yn adlewyrchu, yn rhannol, y strwythur hwn.
3. **Creu proses Datrys Atafaelu'n Gynnar (EROC).** Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaethau yn POCA 2002 i gyfarwyddo bod partïon yn ceisio dod i gytundeb ar atafaelu. Rydym yn cynnig proses EROC i ffurfioli'r arfer anffurfiol presennol lle mae llysoedd yn annog y partïon i ddod i gytundeb cyn ceisio cymeradwyaeth farnwrol. Felly, rydym yn argymell proses EROC sy'n cynnwys dau gam: **cyfarfod EROC** (ble bydd partïon yn ceisio dod i gytundeb) a **gwrandawiad EROC** (ble bydd y barnwr yn ystyried cymeradwyo'r cytundeb neu, os bydd anghytuno, bydd rheoli achos yn digwydd).
4. **Cyflwyno pŵer i gyfeirio i Lys y Goron.** Rydym yn argymell bod y Llys Apêl (Adran Droseddol) yn cael y pŵer i anfon gorchmynion atafaelu i Lys y Goron i'w hailbenderfynu mewn dau amgylchiad ychwanegol: ar unrhyw apêl lwyddiannus gan yr erlyniad mewn cysylltiad â gorchymyn atafaelu; ac ar unrhyw apêl gan yr amddiffyniad yn erbyn euogfarn sy'n llwyddiannus yn erbyn rhai cyhuddiadau ond nid pob un, ac mae'r diffynnydd i'w ailddedfrydu. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r Llys Apêl yn cael ei lwytho gan waith ychwanegol lle mae Llys y Goron mewn gwell sefyllfa i wrando'r achos a gwneud y cyfrifiad atafaelu. Am yr un rheswm, rydym hefyd yn argymell bod gan y Llys Apêl y pŵer i anfon **gorchymyn gorfodi dibynnol i** Lys y Goron ailystyried ei delerau lle mae apêl yn erbyn y gorchymyn wedi bod yn llwyddiannus.

Credwn hefyd fod **hyfforddiant barnwyr** yn hanfodol i wella effeithlonrwydd achosion atafaelu. Felly, rydym yn argymell bod hyfforddiant priodol yn cael ei gynnig i bob barnwr sy'n gwrando achosion atafaelu. Bydd hyfforddiant ychwanegol i farnwyr ym maes atafaelu yn cynorthwyo'r Barnwr Preswyl i ddyrannu achosion atafaelu cymhleth drwy nodi cronfa o farnwyr gyda lefel uwch o hyfforddiant.

# Gorchmynion realistig




Mae'r drefn atafaelu a argymhellwyd gennym wedi'i chynllunio i sicrhau bod gorchmynion atafaelu yn realistig.

Mae sicrhau bod gorchmynion atafaelu yn realistig yn un o amcanion allweddol ein diwygiadau arfaethedig; mae'n helpu i sicrhau bod nodau eraill y drefn a argymhellir gennym yn cael eu cyflawni. Yn gyntaf, mae gorchmynion realistig yn arwain at fwy o debygolrwydd o **orfodi**. Yn ail, mae gorchmynion realistig yn sicrhau bod y diffynnydd yn gallu bodloni gorchymyn sy'n adlewyrchiad mwy cywir o'i fudd o drosedd. Yn drydydd, mae gorchmynion realistig yn cyfrannu at achosion atafaelu sy'n fwy **effeithlon**, nid yn unig oherwydd bod diffynnydd yn fwy tebygol o gydymffurfio wrth wynebu gorchymyn realistig, ond hefyd oherwydd bod camau gorfodi'n gallu cael eu cymryd yn gynt.

Er mwyn sicrhau bod gorchmynion atafaelu yn fwy realistig, rydym yn gwneud argymhellion ynghylch:

1. **Penderfynu ar fudd y diffynnydd o drosedd.** Rydym yn egluro'r ffordd y mae budd y diffynnydd yn cael ei gyfrifo drwy argymell prawf dau gam.

Yn gyntaf, rydym yn diffinio "enillion" fel: cadw beth sydd gan rywun neu gael yr hyn nad oes ganddo (gan gynnwys enillion dros dro ac enillion parhaol). Yn ail, rhaid i'r llys roi gorchymyn bod budd y diffynnydd yn cyfateb i'r enillion fel y'u diffinnir, oni bai y byddai'n anghyfiawn gwneud hynny oherwydd mai dim ond pŵer cyfyngedig oedd gan y diffynnydd i waredu neu reoli'r enillion, ac os felly gall y llys leihau'r budd i swm sy'n adlewyrchu'r pŵer cyfyngedig hwnnw.

Rydym hefyd yn egluro'r ffordd y dylai'r llysoedd fynd ati i **ddosrannu budd** rhwng diffynyddion niferus, gan argymell bod ail gam y prawf (p'un ai a oedd gan y diffynnydd ddim ond pŵer cyfyngedig i waredu neu reoli'r budd) yn berthnasol i ddosrannu hefyd. Os na ellir gwneud penderfyniad o'r fath, dylai pob diffynnydd fod yn atebol am gyfran gyfartal o'r budd i gyd, oni bai y byddai er budd cyfiawnder i osod atebolrwydd cyfartal am y budd i gyd. Yn niffyg darpariaethau penodol ar gyfer dosrannu, mae llysoedd yn aml yn gosod gorchmynion atafaelu ar sail atebolrwydd cyfartal am y budd cyfan, heb unrhyw adlewyrchiad o'r hyn a allai, mewn gwirionedd, fod wedi'i gael gan ddiffynnydd unigol. O ganlyniad, mae diffynyddion yn aml yn oedi cyn bodloni gorchymyn atafaelu yn y gobaith y bydd cyd-ddiffynnydd yn talu'n gyntaf.

2. **Penderfynu ar y budd mewn achosion ffordd o fyw troseddol.** Dan POCA 2002, os canfyddir bod gan ddiffynnydd 'ffordd o fyw droseddol', bydd ei fudd o drosedd hefyd yn cynnwys budd o ymddygiad troseddol cyffredinol. Rydym yn gwneud argymhellion sydd â'r bwriad o egluro a symleiddio'r ffordd y mae darpariaethau ffordd o fyw troseddol yn gweithio. **Rydym** yn argymell ychwanegu rhai troseddau at y rhestr o droseddau sy'n sbarduno'r rhagdybiaeth o ffordd o fyw troseddol, megis cadw puteindy a rhai troseddau amgylcheddol. **Yn ail**, rydym yn argymell bod y nifer o droseddau sy'n ofynnol i fodloni'r hynt gweithgarwch troseddol yn dri throsedd o dan unrhyw amgylchiadau (ar hyn o bryd, mae hynt gweithgarwch troseddol yn cael ei sbarduno pan fydd y diffynnydd wedi'i gael yn euog o o leiaf bedwar trosedd yn yr un achos; neu os yw'r diffynnydd wedi'i gael yn euog ar o leiaf ddau achlysur gwahanol yn y cyfnod o chwe blynedd cyn dechrau'r achos presennol). **Yn drydydd**, rydym yn argymell cynnwys euogfarnau am droseddau y mae'r diffynnydd wedi ceisio cael budd ohonynt. **Yn bedwerydd**, rydym yn argymell cynyddu trothwy ariannol y budd sy'n ysgogi tybiaethau ffordd o fyw troseddol i £5,000 a chwyddiant (gyda'r posibilrwydd i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu'r trothwy bob pum mlynedd). Rydym hefyd yn cyflwyno rhywfaint o ddisgresiwn o ran defnyddio darpariaethau ffordd o fyw troseddol. Nod y disgresiwn hwn yw rhoi **rhywfaint o hyblygrwydd** i'r drefn atafaelu, fel y trafodir isod.

3. **Penderfynu ar y swm adferadwy.** Y swm y gellir ei adfer yw'r swm y mae'n ofynnol i'r diffynnydd ei dalu tuag at orchymyn atafaelu. Dan y drefn atafaelu bresennol, gwneir gorchmynion weithiau am symiau sy'n enwol neu'n sylweddol is na'r budd o drosedd. Er nad yw hyn yn anghysondeb, gan fod gorchmynion o'r fath yn cyflawni pwrpas cyfreithlon, maent yn tanseilio ffydd y cyhoedd yn y drefn atafaelu ac yn anfon y neges anghywir bod troseddu'n talu.

Felly, pan wneir y gorchymyn atafaelu am swm sy'n llai na'r budd sy'n ddyledus, rydym yn argymell y dylai'r llys fodloni ei hun bod y diffynnydd yn deall beth mae pob ffigur yn ei olygu, pam fod y ffigurau'n wahanol ac y gallai'r erlyniad geisio adennill mwy o'r budd sy'n ddyledus yn y dyfodol.

Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y diffynnydd a'r cyhoedd yn cael gwybod am atebolrwydd parhaus y diffynnydd am y budd llawn sy'n weddill, gan gynyddu tryloywder cyffredinol y drefn atafaelu. Rydym hefyd yn gwneud argymhellion ynghylch asedau cudd.

**Mae “asedau cudd”** yn derm nad yw’n ymddangos yn POCA 2002, ond fe’i datblygwyd gan farnwyr ac ymarferwyr i ddisgrifio unrhyw wahaniaeth mewn gwerth heb esboniad rhwng budd y diffynnydd a gwerth eu hasedau hysbys. Er mwyn gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy hygyrch, rydym yn cyflwyno darpariaethau sydd â’r bwriad o godio’r arfer presennol o ran asedau cudd.

Yn gyntaf, rydym yn egluro y dylai llysoedd wneud penderfyniadau am asedau cudd ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael, ac nid dim ond y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y diffynnydd. Yn ail, rydym yn argymell nodi mewn statud y ffactorau i gynorthwyo’r llys i wneud canfyddiad o asedau cudd: rhaid i’r llys ystyried a yw unrhyw wahaniaeth rhwng y budd sy’n ddyledus a’r swm amlwg sydd ar gael gan y diffynnydd sy’n deillio o wariant sy’n fwy tebygol na pheidio o fod wedi’i dalu o fudd y diffynnydd, neu oherwydd newidiadau yng ngwerth asedau.



## Gorfodaeth effeithiol



**"Nid yw [atafaelu] yn cael ei flaenoriaethu yn y system cyfiawnder troseddol, mae'n ôl-ystyriaeth. Nid oes dilyniant, ac mae perchenogaeth achosion yn broblem fawr. Mae cwnselwyr ac eraill yn colli diddordeb wrth geisio dod â dau ben llinyn ynghyd"[2]**

Fel y gwelwyd yn gynharach, mae'r amcan o sicrhau bod gorchmynion atafaelu yn **realistig** yn cyfrannu at y nod o sicrha y gellir **gorfodi gorchmynion atafaelu**.

Mae gorfodi yn agwedd hynod o broblemus yn y drefn atafaelu bresennol. O 31 Mawrth 2021, mae'r swm sy'n ddyledus o orchmynion atafaelu heb eu hadennill yn fwy na £2 biliwn.

O ganlyniad, nid yn unig y mae'r Wladwriaeth yn aml yn methu ag adennill y swm a atafaelwyd, ond mae hyn hefyd yn creu canfyddiad negyddol ymysg y cyhoedd ynghylch effeithiolrwydd gorfodi gorchmynion atafaelu. Rydym yn mynd i'r afael â'r broblem hon drwy wneud argymhellion sydd â'r nod o gryfhau mecanweithiau gorfodi:

2 Rhanddeiliad sy'n aelod o'r farnwriaeth, mewn ymateb i'n hymgynghoriad

1. **Gorchmynion dibynnol.**

Dylid rhoi pŵer i Lys y Goron, ar ôl rhoi gorchymyn atafaelu, i roi gorchymyn gorfodi sy'n dod i rym naill ai ar unwaith neu'n "ddibynnol" os oes sail resymol dros gredu y bydd y diffynnydd yn methu â bodloni'r gorchymyn drwy wrthodiad bwriadol neu esgeulustod beius, neu na fydd modd gwireddu cyfran y diffynnydd o ased.

I arwain disgresiwn Llys y Goron i roi gorchymyn dibynnol, rydym yn argymell rhestr o ffactorau i'w hystyried, gan gynnwys: y defnydd a wneir fel arfer o eiddo'r diffynnydd; anghenion ac adnoddau ariannol priod neu bartner sifil y diffynnydd, yn ogystal ag unrhyw blentyn; neu a yw'r ased dan sylw wedi cael ei lygru gan droseddoldeb. Ar ben hynny, rydym yn argymell y dylai Llys y Goron allu gorfodi, ar sail amodol, bob math o orchymyn gorfodi y gellir ei wneud ar hyn o bryd yn y llys ynadon, gan gynnwys, er enghraifft, fforffedu arian a ddelir mewn cyfrif banc, neu werthu eiddo a atafaelwyd. Mae'r pŵer hwn yn hanfodol er mwyn osgoi'r posibilrwydd y gallai diffynyddion geisio manteisio ar yr oedi anochel rhwng rhoi gorchymyn atafaelu a'r gwrandawiad gorfodi i rwystro gorfodaeth.

2. **Gorchmynion cymorth atafaelu.** Rydym yn argymell bod gan Lys y Goron a'r llys ynadon y pŵer i roi gorchmynion cymorth atafaelu, lle penodir person â chymwysterau priodol i gynorthwyo diffynyddion i gyflawni eu gorchymyn atafaelu.
3. **Gorchmynion casglu.** Rydym yn argymell gwneud yn glir y gellir defnyddio gorchmynion casglu gyda gorchmynion atafaelu. Mae gorchmynion casglu yn rhoi pwerau i swyddog dirwyon reoli'r trefniadau i ddiffynnydd dalu gorchymyn ariannol a osodwyd gan y llys, heb o reidrwydd ddychwelyd i'r llys. Felly, bydd gwaith swyddogion dirwyon yn arbed amser y llys mewn achosion atafaelu.
4. **Gorchmynion eraill.** Yn gyntaf, rydym yn argymell y dylai'r llys gael pŵer pwrpasol i gyfarwyddo diffynnydd i ddarparu gwybodaeth a dogfennau ynghylch ei amgylchiadau ariannol. Yn ail, rydym yn argymell y dylai'r llys ynadon gael y pŵer i orfodi diffynyddion i ddod i'r llys ar unrhyw gam mewn achos gorfodi (dan y drefn bresennol, dim ond pan fydd y llys ynadon yn ystyried defnyddio'r cyfnod o garchar am ddiffygdaliad, y mae'r pŵer hwn ar gael).

Hefyd, mae ein polisi ar **ataliaeth** yn berthnasol mewn perthynas â gorfodi. Mae'r drefn a argymhellir gennym yn bwriadu gwarchod gwerth asedau rhag cael eu datgelu cyn gwneud gorchymyn atafaelu a'i orfodi, gyda'r bwriad o atal diffynyddion rhag rhwystro pwrpas achosion atafaelu. Mae'n amlwg y bydd gorfodaeth yn ddiystyr os gall diffynyddion wasgaru eu hasedau cyn dechrau achos gorfodi. Felly, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol.

1. **Atgyfnerthu gorchmynion atal.** Mae gorchymyn atal yn gweithio drwy wahardd unrhyw berson rhag delio ag unrhyw eiddo y gellir ei wireddu a nodir yn y gorchymyn. Rydym yn argymell gosod ar sail statudol y prawf **“risg o wasgaru”** a ddefnyddir gan y llysoedd ar hyn o bryd, ond nid yw’n cael ei grybwyll yn benodol yn Rhan 2 Deddf Llysoedd Ynadon 2002, fel un o’r gofynion sydd i’w bodloni wrth wneud gorchymyn atal. Rydym yn argymell cyflwyno rhestr o ffactorau, nad yw’n gynhwysfawr, sy’n berthnasol i’r risg o wasgaru, gan gynnwys: gweithredoedd y sawl y mae ei asedau i gael eu hatal; natur y troseddu honedig; natur yr asedau; gwerth y budd honedig o droseddu; cam yr achos; a chymeriad da neu ddrwg blaenorol y person. Ar ben hynny, rydym yn delio â chyflawni gorchmynion atal. Dan y drefn atafaelu bresennol, rhaid cyflawni gorchymyn atal os na chychwynnir achos troseddol o fewn amser rhesymol. Rydym yn argymell cyflwyno rhestr o ffactorau, nad yw’n gynhwysfawr, y dylai llysoedd eu hystyried wrth benderfynu a yw achosion troseddol yn cael eu cychwyn o fewn amser rhesymol, gan gynnwys: faint o amser sydd wedi mynd heibio ers i’r gorchymyn atal gael ei wneud; y rhesymau dros yr oedi; hyd (a dyfnder) yr ymchwiliad; natur y gorchymyn atal a wnaed; cymhlethdod yr ymchwiliad a’r achosion posibl; a yw’r ymchwiliad wedi cynnwys ymholiadau rhyngwladol; ac effaith y gorchymyn atal ar y diffynnydd, unrhyw drydydd parti busnes.



2. **Cryfhau ymateb asiantaethau gorfodi’r gyfraith.** Mae asiantaethau gorfodi’r gyfraith yn chwarae rhan sylfaenol yn y gwaith o sicrhau bod gwerth asedau’n cael ei gadw a’i reoli fel bod gorchmynion atafaelu’n cael eu bodloni. Rydym yn gwneud rhai argymhellion sydd â’r bwriad o roi arfau digonol i asiantaethau sy’n gorfodi’r gyfraith i gefnogi achosion atafaelu’n effeithlon. Yn gyntaf, rydym yn argymell bod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn ailystyried **anghenion hyfforddi’r** holl swyddogion heddlu sy’n gysylltiedig ag atafaelu, ac yn enwedig y rheini a all fod angen ymarfer neu oruchwylio’r pwerau chwilio ac atafaelu yng nghyswllt atafaelu. Yn ail, rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn ystyried sefydlu **Bwrdd Adfer Asedau Troseddol (CARB)** er mwyn hwyluso’r gwaith o ddatblygu **strategaeth reoli asedau genedlaethol**. Bydd y strategaeth hon yn cynnwys cynhyrchu canllawiau mewn perthynas â rheoli asedau. Dylai’r strategaeth a ddatblygwyd gan CARB hefyd fynd i’r afael â’r heriau sy’n codi yn sgil technolegau newydd fel crypto-asedau (sy’n ymwneud, er enghraifft, â’u storio a’u cyfnewid, yn ogystal â’u natur all-diriogaethol yn aml).




Hefyd, mae ein hargymhellion **ynghylch apeliadau** wedi'i dylunio i sicrhau bod camau gorfodi'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Argymhellwn y dylid gosod gwaharddiad statudol ar apeliadau **yn erbyn gorchmynion gorfodi** ar ôl i'r gorchmynion hynny gael eu rhoi ar waith drwy orchymyn pellach gan Lys y Goron. Bydd hyn yn atal rhwystro gorfodaeth o ganlyniad i nifer o apeliadau cydamserol. Ar ben hynny, rydym yn argymell y dylid atal camau gorfodi yn yr amgylchiadau canlynol:

(1) os cyflwynir cais am ganiatâd i apelio, neu os gwneir gorchymyn atafaelu neu orfodi dibynnol;

(2) lle bo cais am apêl yn cael ei wrthod gan y Barnwr unigol ond yn cael ei adnewyddu mewn pryd i'r Llys llawn;

(3) lle rhoddir caniatâd i apelio i'r Llys Apêl (Adran Droseddol) allan o amser;

(4) lle mae rhoi gorchymyn gorfodi dibynnol ar waith yn cael ei herio yn yr Uchel Lys y tu allan i amser; a

(5) lle bo apêl yn cael ei chyflwyno ynghyd â chais am estyniad amser.

# Hyblygrwydd



Amcan cyffredinol arall y ceisiwn ei gyflawni gyda'n cyfundrefn atafaelu a argymhellir yw hyblygrwydd. Mae llunio trefn hyblyg mewn rhai ardaloedd yn cael effaith fanteisiol hefyd o ran cyflawni ein hamcanion eraill. Os bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn cael ei roi, mae gorchmynion atafaelu'n debygol o fod yn fwy **realistig**, gan gynyddu'r tebygolrwydd y cânt eu **gorfodi**. Yn ogystal â hyn, mae hyblygrwydd yn cyfrannu at **degwch** y drefn (a drafodir isod).

Y prif faes y bydd ein hargymhellion yn sicrhau mwy o hyblygrwydd ynddo yw o ran **ailystyried y swm a'r budd sydd ar gael**. Mae'r angen i ailystyried gorchmynion atafaelu yn codi pan fydd amgylchiadau'n newid sy'n golygu bod yn rhaid amrywio gorchymyn atafaelu. Mae ailystyried yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer newidiadau o'r fath ar ôl gwneud gorchymyn atafaelu. Rydym yn gwneud argymhellion ynghylch:

1. **Cynyddu'r swm sydd ar gael.** Dan POCA 2002, mae'r gallu diderfyn i gynyddu swm y diffynnydd sydd ar gael yn amharu ar ei broses adsefydlu, yn ei annog i gyflawni rhagor o droseddau ac yn gymhelliant i gelu asedau. Felly, rydym yn argymell na ddylai cais i ailystyried cynnydd fod ar gael oni bai:

    (1) canfuwyd bod y diffynnydd wedi cael asedau y dylid bod wedi'u cael ei hadnabod ond na chawsant eu hadnabod adeg y gorchymyn atafaelu gwreiddiol; neu

    (2) mae asedau y nodwyd eu bod wedi'u cael gan y diffynnydd adeg y gorchymyn atafaelu gwreiddiol ac a gafodd eu gwireddu yn unol â'r gorchymyn atafaelu wedi cynhyrchu swm sy'n fwy na'u prisiad gwreiddiol. Mae'r argymhelliad hwn yn annog y diffynnydd i ymgysylltu â'r gorchymyn atafaelu drwy ddatgelu'n llawn a chydymffurfio'n gyflym.

2. **Gostwng y swm sydd ar gael.** Rydym yn argymell y dylai ailystyried gostwng fod ar gael pan:

   (1) fo gwerth ased (gan gynnwys rhodd **lygredig**)) wedi'i nodi yn y gorchymyn atafaelu gwreiddiol yn gwireddu swm is na'i brisiad gwreiddiol; a

   (2) mae'n bosibl adnabod asedau amnewid, gan sicrhau nad yw diffynyddion yn cael eu cosbi am y ffordd y maent yn dewis bodloni'r gorchymyn atafaelu.

   Nod yr argymhelliad hwn yw osgoi cosbi diffynyddion am ddigwyddiadau a oedd y tu hwnt i'w rheolaeth ac a fyddai'n eu rhwystro rhag cyflawni'r gorchymyn atafaelu gwreiddiol. Gallai hyn ddigwydd pan fydd asedau wedi cael eu gorbrisio, neu os oes rhesymau da dros beidio â gwireddu rhai asedau (er enghraifft, cartref teuluol), neu os yw'r ased yn rhodd lygredig

3. **Amrywio ffigur y budd.** Rydyn ni'n argymell y dylai'r cyfrifiad o'r swm sydd ar gael ar ôl ailystyried cynyddu'r ffigur ar gyfer y budd eithrio asedau ôl-gaffaeledig ac y dylai gael ei gyfyngu i ailystyried y swm sydd ar gael. Nod yr argymhelliad hwn yw sicrhau nad yw'r diffynnydd yn dianc rhag atebolrwydd am werth yr asedau y mae'n eu dal ar adeg y gorchymyn atafaelu gwreiddiol, ac nad yw ailystyried cynyddu ffigur y budd-dal yn effeithio ar asedau ar ôl caffael. Ar ben hynny, rydym yn argymell pan fydd diffynnydd yn cael amrywiad gostyngol mewn cysylltiad ag ased a wireddwyd am lai na'r gwerth a briodolir iddo ar adeg yr atafaelu, gellir hefyd newid ffigur budd y diffynnydd yn unol â hynny. Mae'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd â'n polisi o atal y diffynnydd rhag wynebu atebolrwydd parhaus hyd yn oed os yw eisoes wedi bodloni'r gorchymyn atafaelu.

4. **Gweithredu amodol.**

> Nod gweithredu gorchymyn atafaelu amodol yw sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd i ddelio â newidiadau mewn amgylchiadau yn y dyfodol, ar sail yr ystyriaeth bod gorfodi pob gorchymyn atafaelu yn llwyr yn afrealistig yn ymarferol. Bwriad y system a argymhellir yw osgoi camau gorfodi diderfyn pan nad oes gobaith realistig o adennill y swm sydd ar gael, er gwaethaf ymdrechion rhesymol awdurdodau gorfodi.

   Felly, mae gweithredu amodol yn cyfrannu at yr amcan o sicrhau gorfodaeth effeithiol. O ran y rhesymau sy'n cyfiawnhau gweithredu amodol, rydym yn argymell y dylai gweithredu amodol fod ar gael:

   (1) yng ngoleuni unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd ac unrhyw fesurau gorfodi rhesymol y caniateir eu cymryd o fewn cyfnod rhesymol o ddyddiad y gwrandawiad gweithredu amodol, ni fyddai'r swm y gellir ei adennill yn fwy nag isafswm; neu

   (2) yr unig ran o orchymyn sy'n ddyledus yw llog ac mae gwneud hynny er budd cyfiawnder.

   Pan fydd gweithredu amodol yn cael ei orchymyn, bydd gorchymyn atafaelu'n cael ei drin fel gorchymyn nad yw mewn grym mwyach ac ni ellir cymryd camau gorfodi pellach, oni bai fod y gweithredu yn cael ei ddiddymu. Mae'r gweithredu yn "amodol" oherwydd gellir adfer gorchymyn atafaelu ar ôl iddo gael ei weithredu. Rydym yn nodi dau amod gwahanol y gellir eu defnyddio i orchymyn diddymu gweithredu amodol, sef pan:

(1) nad yw'r amodau ar gyfer gweithredu dros dro yn berthnasol mwyach, a bod mesurau gorfodi rhesymol ar gael; neu

(2) gwneir gorchymyn i gynyddu ffigur y budd neu'r swm sydd ar gael.

Yn ogystal ag ailystyried, ein nod yw sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd yn fwy cyffredinol drwyddi draw yn y diwygiadau rydym yn eu hargymell drwy gyflwyno rhai meysydd disgresiwn. Er enghraifft:

1. **Disgresiwn yr erlyniad i beidio â dibynnu ar dybiaethau ffordd o fyw troseddol.** O dan POCA 2002, mae'n rhaid defnyddio'r **tybiaethau ffordd** o fyw troseddol (ar yr amod bod yr amodau'n cael eu bodloni). Yn hytrach, rydym yn argymell y dylai'r erlyniad gael disgresiwn i beidio â dibynnu ar y tybiaethau.
2. **Disgresiwn Llys y Goron i roi gorchymyn dibynnol.** Fel yr esboniwyd **uchod**, rydym yn argymell rhai ffactorau, nad ydynt yn gynhwysfawr, y dylai Llys y Goron eu hystyried wrth arfer y disgresiwn hwn.
3. **Lleoliad ar gyfer achosion gorfodi.** Dan y drefn atafaelu bresennol, gwrandewir achosion gorfodi yn y llys ynadon. Rydym yn argymell y dylai Llys y Goron a'r llys ynadon fod â phwerau hyblyg i drosglwyddo achosion gorfodi rhyngddynt er mwyn gorfodi'r gorchymyn atafaelu yn y ffordd orau bosibl ar sail ffeithiau pob achos.

# Tegwch



Yn unol â nod statudol Comisiwn y Gyfraith o sicrhau bod y gyfraith yn deg, rydym wedi llunio trefn atafaelu a fyddai'n gwella tegwch achosion atafaelu. Mae trefn decach yn helpu i sicrhau bod achosion atafaelu yn **effeithlon**, gan fod diffynyddion yn fwy tebygol o gydweithredu os ydynt o'r farn eu bod yn destun gorchmynion atafaelu teg a'u bod yn cael eu trin yn deg drwy gydol yr achos. Fel y dywedodd Dr Craig Fletcher wrthym:

> "Y ffordd orau o annog cydymffurfiaeth yw gwneud y broses gyfan yn fwy teg..."

Ein nod yw sicrhau trefn decach mewn perthynas â phob parti sy'n ymwneud ag achosion atafaelu (neu yr effeithir arnynt gan achosion o'r fath):

1. **Diffynyddion** Mae ein hamcan cyffredinol o sicrhau bod gorchmynion atafaelu yn realistig yn cael ei yrru gan y rhagdybiaeth bod yn rhaid i gyfundrefn atafaelu fod yn deg i'r diffynnydd. Yn ogystal â chyflawni tegwch drwy orchmynion realistig, mae ein trefn atafaelu wedi'i **bwriadu i rwystro ffigur y budd** a'r swm y gellir ei adennill rhag cael eu cyfrif ddwywaith. Rydym yn argymell y dylai'r llys nodi unrhyw eiddo a atafaelwyd gan y wladwriaeth neu a ad-dalwyd i ddioddefwyr gan y diffynnydd yn unol â'r achos a lleihau ffigur y budd yn unol â'r swm hwnnw er mwyn sefydlu'r budd sy'n ddyledus. Nod yr argymhelliad hwn yw cywiro diffygion y drefn bresennol, lle nad yw diffynyddion y mae eu

hasedau wedi cael eu hatafaelu yn cael eu trin fel petaent wedi ad-dalu'r gyfran gyfatebol o'r budd ac, o ganlyniad, eu bod yn wynebu amddifadedd dwbl oherwydd bod yn rhaid iddynt roi cyfrif i'r wladwriaeth am yr eildro ar gyfer y budd hwnnw. Rydym hefyd yn egluro'r prawf **"risg ddifrifol o anghyfiawnder"**. Dan POCA 2002, ni ddylai llysoedd ddefnyddio tybiaethau ffordd o fyw troseddol pe bai "risg ddifrifol o anghyfiawnder". Rydym yn argymell na ddylai'r prawf "risg ddifrifol o anghyfiawnder" gael ei gyfyngu i atal risg o gyfrif ddwywaith, ond yn hytrach y dylai ystyried unrhyw ffactorau perthnasol a fyddai'n achosi risg ddifrifol o anghyfiawnder pe bai rhagdybiaeth yn cael ei gwneud.

2. **Erlyniad.** Wrth ystyried tegwch yng nghyd-destun yr erlyniad, mae'r mater o **gostau mewn achosion atal yn codi yn y cyswllt hwn**. Y rheol gyffredinol mewn achos atal yw y gorchmynnir y parti aflwyddiannus i dalu costau'r parti llwyddiannus. Mae hyn yn rhwystro ceisiadau am orchmynion atal, gan fod yr erlyniad "sy'n colli" yn ysgwyddo costau'r amddiffyniad heb ystyried ei ddidwylledd a pha mor rhesymol yw'r cais. Yn ei dro, gallai hyn gael effaith ddychrynllyd ar geisiadau. Am y rheswm hwn, rydym yn argymell y dylid cynnwys pŵer i ddyfarnu costau yn POCA 2002. Dylai'r asesiad o gostau gael ei lywio gan rai egwyddorion, megis: ni ddylid gwneud gorchmynion costau yn erbyn y diffynnydd; os daw'r erlyniad â chais llwyddiannus, dylai pob parti ysgwyddo ei gostau ei hun; os daw'r erlyniad â chais aflwyddiannus, mae rhagdybiaeth y bydd yn talu costau'r amddiffyniad, oni bai fod yr erlyniad yn gallu dangos bod y cais wedi'i gyflwyno'n rhesymol.

3. **Trydydd partïon.** Gallai gorchmynion atafaelu effeithio nid yn unig ar y diffynnydd, ond hefyd ar drydydd partïon (er enghraifft, oherwydd bod trydydd parti yn dal cyfran o eiddo ynghyd â'r diffynnydd). Mae'r drefn rydym yn ei hargymell yn sicrhau bod buddiannau trydydd parti yn cael eu diogelu'n effeithiol, drwy ganiatáu i drydydd partïon gyflwyno sylwadau ar wahanol gamau yn yr achos. Mae rhoi cyfle i drydydd partïon amddiffyn eu buddiannau mewn achosion atafaelu yn hanfodol gan ei fod yn sicrhau bod ein polisi'n gwarchod hawliau trydydd partïon yn briodol ac, o'r herwydd, yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yn benodol, hawl i fywyd preifat a theuluol a hawl i eiddo). Felly, rydym yn argymell y dylai trydydd parti sy'n hawlio buddiant mewn eiddo godi buddiant o'r fath yn Llys y Goron ar ôl gwneud y gorchymyn atafaelu a chyn i'r asedau gael eu breinio'n awtomatig, neu cyn **gweithredu gorchymyn dibynnol**, os na roddwyd cyfle rhesymol i'r trydydd parti wneud sylwadau ar gam cynharach o'r achos atafaelu, neu os oedd achos da dros beidio â gwneud cais yn gynharach, ac y byddai yna risg ddifrifol o anghyfiawnder i'r trydydd parti pe na bai'r llys yn clywed y cais. Ar ben hynny, bwriedir hefyd i'r **broses EROC** hwyluso cyfranogiad trydydd partïon er mwyn canfod eu buddiant mewn eiddo a chaniatáu iddynt gyflwyno sylwadau yn gynnar yn ystod achosion atafaelu. Yn olaf, rydym yn argymell bod gan drydydd partïon yr hawl i apelio yn erbyn gorchmynion mewn perthynas ag eiddo a atafaelwyd neu eiddo personol a gynhyrchwyd os nad oes penderfyniad wedi'i wneud mewn perthynas â buddiannau mewn eiddo ac na chafodd y trydydd parti gyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad atafaelu neu os oes risg gredadwy o anghyfiawnder difrifol.

4. **Dioddefwyr.** Nid yw dioddefwyr troseddau yn ymwneud ag achosion atafaelu, ond efallai yr effeithir arnynt yn anuniongyrchol pan wneir gorchymyn iawndal yn erbyn y diffynnydd o'u plaid hwy. Mae cyfraith iawndal y tu allan i gylch gwaith ein hadolygiad o'r drefn atafaelu. Fodd bynnag, mae nifer o achosion lle mae gorchmynion atafaelu a gorchmynion iawndal yn croesi.



Mae rhai o'n hargymhellion ar atafaelu wedi'u cynllunio i gael effaith gadarnhaol hefyd ar iawndal er mwyn sicrhau rhywfaint o foddhad i ddioddefwyr troseddau. Mae ein polisi'n rhoi **blaenoriaeth i dalu iawndal**.

Os rhoddir gorchymyn iawndal ar yr un pryd â gorchymyn atafaelu, rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i Lys y Goron gyfarwyddo y dylid talu iawndal o symiau a adenillir dan y gorchymyn atafaelu (dan y drefn bresennol, dim ond pan nad oes gan y diffynnydd y modd i dalu'r ddau orchymyn y rhoddir blaenoriaeth i iawndal). Yn yr un modd, pan roddir gorchmynion atafaelu lluosog, dylid rhoi blaenoriaeth i dalu iawndal ac, ar ôl hynny, i bob gorchymyn atafaelu yn y gorchymyn a wnaed. Rydym hefyd yn argymell pŵer i Lys y Goron addasu'r elfen iawndal i'w thalu o orchymyn atafaelu pan fydd y gorchymyn atafaelu'n cael ei amrywio naill ai yn uwch neu yn is. Bydd hyn yn cyflawni'r nodau deuol o flaenoriaethu talu iawndal (tegwch dioddefwyr) ac atal y diffynnydd rhag wynebu gorchmynion na ellir eu talu (tegwch i ddiffynyddion).

## Symleiddio




Gyda'r diwygiadau yr ydym yn eu hargymell, bwriadwn symleiddio'r drefn atafaelu, yn unol â nod statudol Comisiwn y Gyfraith i sicrhau bod y gyfraith yn syml. Dywedodd yr Athro Jackie Harvey wrthym:

> **"Mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio delio ag amrywiaeth eang o agweddau ar droseddu, efallai'n rhy eang. Mae angen i ni wneud pethau'n symlach..."**

Mae'n bwysig symleiddio'r broses, gan ei bod yn helpu i sicrhau bod achosion atafaelu yn **effeithlon**: os yw pwerau'r partïon yn glir a bod yr achos yn syml, mae'r angen i bartïon herio gorchmynion atafaelu a phenderfyniadau eraill sy'n cael eu gwneud yn ystod achosion atafaelu yn cael eu lleihau. O ganlyniad i hynny, mae symlrwydd yn cyfrannu hefyd at gyflawni nod statudol arall Comisiwn y Gyfraith: sicrhau bod y gyfraith yn gost-effeithiol.

Mae llawer o'n hargymhellion wedi'u llunio i wella symlrwydd, er enghraifft drwy roi sail statudol i'r **nod o atafaelu**, gan egluro'r ffordd y dylid **defnyddio'r gorchmynion** ffordd o fyw, gan godio'r ymarfer presennol mewn perthynas ag **asedau cudd**, codio'r prawf **"risg gwasgaru"** fel y'i cymhwysir ar hyn o bryd gan y llysoedd mewn perthynas â gorchmynion atal ac **egluro materion** ynghylch ailystyried (a drafodwyd uchod). Yn ogystal, ein nod yw gwella symlrwydd mewn ffyrdd eraill:

1. **Cyfuno gorchmynion atafaelu lluosog.** Nid yw'r drefn bresennol yn ystyried realiti cael a gorfodi nifer o orchmynion atafaelu, yn enwedig pan fydd gwahanol awdurdodau erlyn yn ceisio gorchmynion atafaelu yn erbyn yr un diffynnydd. Felly, yr ydym wedi dyfeisio trefn newydd a fyddai'n gwella symlrwydd i'r diffynyddion a'r llysoedd wrth roi a gorfodi gorchmynion atafaelu lluosog, tra'n cadw'r rhesymeg wreiddiol o atal cyfrif ddwywaith. Er mwyn gwneud hynny, rydym yn argymell, lle mae gorchmynion atafaelu lluosog yn cael eu ceisio yn erbyn yr un diffynnydd, y dylai'r llys gael y pŵer i gyfuno'r ceisiadau am atafaelu. Os oes gan ddiffynnydd orchymyn atafaelu eisoes, dylai fod gan y llys y pŵer i newid y cyfrifiad budd ar gyfer y gorchymyn atafaelu cynharach o fewn chwe blynedd i ddyddiad yr euogfarn a chyfuno unrhyw swm sy'n ddyledus oddi tani i'r gorchymyn atafaelu newydd.
2. **Codio cyfraith achosion.** Mae'r corff cynyddol o gyfraith achosion a ddatblygwyd ers cyflwyno POCA 2002 (gan gynnwys dros 100 o benderfyniadau apeliadol ynghylch cyfrifo budd) wedi creu ansicrwydd yn y gyfraith. Credwn y dylid cynnwys egwyddorion a ddatblygir yn y gyfraith achos mewn darpariaethau statudol er mwyn gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy hygyrch. O'r herwydd, rydym yn argymell cynnwys yr achosion perthnasol sy'n ymwneud â **rhoddion llygredig** fel canllawiau yn y Rheolau Trefniadaeth Droseddol a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer ac yn POCA 2002.
3. **Apeliadau.** Bydd y drefn a argymhellwyd gennym mewn perthynas ag **apeliadau** yn erbyn gorchmynion atafaelu a gorchmynion eraill a wnaed mewn achosion atafaelu yn egluro'r hawliau a'r llwybrau apêl presennol. Rydym yn argymell bod pob llwybr apêl yn cael ei nodi'n glir yn Rhan 2 POCA 2002, gan gynnwys cyfeirio at ddeddfwriaeth arall (ac yn enwedig Deddf Apeliadau Troseddol 1968) lle bo hynny'n berthnasol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol ar gael yn rhwydd i ymarferwyr.

**"Yn 2009, roedd y Rhestr Achosion yn cynnwys 177 o Achosion. Mae rhestr achosion 2020 yn cynnwys tua 507 o achosion. Ychydig iawn o feysydd cyfraith sydd wedi gweld cymaint o ymgyfreitha o fewn cyfnod mor fyr; efallai ei fod yn adlewyrchu nid yn unig bwysigrwydd y maes cyfraith penodol hwn ond hefyd ei gymhlethdod deddfwriaethol".[3]**




3 HHJ Hopmeier, *A Guide to Restraint and Confiscation Orders under POCA 2002* (2022).

## Cyfundrefn Atafaelu a Argymhellir

**ALLWEDD**
**D - Diffynnydd**

# Dechrau'r ymchwiliad

**NODYN:** Gellir penderfynu ar fuddiannau trydydd parti mewn asedau ar unrhyw gam o'r broses, o 'ataliaeth' ymlaen.

Cais atafaelu
(gall ddigwydd unrhyw bryd o hyn ymlaen)

Dylai'r erlyniad nodi ar y ffurflen Gwrandawiad Ple a Pharatoi Treial y gellir gwneud cais atafaelu ar ddiwedd yr achos troseddol sylweddol ac a yw'r cais yn debygol o fod yn 'gymhleth' ai peidio.

Euogfarn a dedfryd

Mae atafaelu'n dechrau ar gais yr erlyniad neu'n cael ei weithredu gan y llys

Datganiad yr erlynydd

Ymateb yr amddiffyniad

**Cyfarfod Datrys Atafaelu yn Gynnar (EROC)**

**Gwrandawiad EROC** pryd y bydd y gorchymyn y cytunwyd arno yn cael ei gyflwyno i'r llys neu bydd y materion sy'n destun anghydfod yn cael eu nodi wrth baratoi ar gyfer y gwrandawiad atafaelu.

Cytuno ar orchymyn → Gorfodi

**NODYN:** Disgresiwn yr erlyniad i beidio â defnyddio'r darpariaethau ffordd o fyw troseddol.

Heb gytuno ar gorchymyn

# Gwrandawiad atafaelu

**Cam 1: Pa ymddygiad troseddol sy'n berthnasol i'r ymchwiliad atafaelu?**
Oes gan D ffordd o fyw troseddol?
Troseddau yn ymwneud â ffordd o fyw:
- trosedd atodlen 2
- isafswm o £5000 (+ chwyddiant) o gyfanswm budd:
  - trosedd dros o leiaf 6 mis
  - tri throsedd yn yr un achos neu dri throsedd dros achosion lluosog
  - lle mae troseddau lluosog yn cael eu hystyried, dylid hefyd ystyried troseddau euogfarn 'ymgais' perthnasol

**Cam 2: Penderfynu ar gyfanswm budd D o'i ymddygiad troseddol perthnasol:**
- mae cyfanswm budd D yn cyfateb i'r hyn y mae'r D wedi'i 'ennill' o ganlyniad i neu mewn cysylltiad â'r ymddygiad troseddol y'i cafwyd yn euog ohono; oni bai
- fod y llys yn fodlon y byddai'n anghyfiawn gwneud gorchymyn am y swm hwn oherwydd bwriad D i fod â phŵer cyfyngedig i reoli neu waredu mewn cysylltiad â'r enillion hynny

A yw D wedi elwa o ymddygiad troseddol PENODOL?

A yw D wedi elwa o ymddygiad troseddol CYFFREDINOL (GCC)?

**Defnyddio tybiaethau ffordd o fyw troseddol**
- Unrhyw eiddo a drosglwyddwyd i D ar ôl y diwrnod perthnasol.
- Unrhyw eiddo a ddelir gan D ar ôl dyddiad yr euogfarn a gafwyd o ganlyniad i GCC.
- Gwariant ar unrhyw adeg ar ôl y diwrnod perthnasol yn cael ei dalu gydag eiddo a gafwyd drwy GCC.
- Dylid prisio eiddo yn rhydd o unrhyw fuddiannau eraill ynddo.

**Gorfodaeth (yn Llys y Goron neu'r llys ynadon)**
- Os na thelir y gorchymyn o fewn cyfnod 'amser i dalu', rhestru ar gyfer gwrandawiad gorfodi yn Llys y Goron i ystyried gweithredu unrhyw orchmynion dibynnol a phenderfynu ar y lleoliad ar gyfer gorfodi.
- Os na fodlonwyd y gorchymyn o hyd – ystyriwch garchariad am ddiffygdaliad fel y dewis olaf.
- Os yw'r gorchymyn yn dal heb ei dalu, ystyriwch wŷs cyfnodol i D ddarparu'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf.

**Cam 3: Rhoi gwerth ar fudd**
Pennir gwerth y budd drwy gyfeirio at werth y farchnad. Gwerth yr eiddo adeg y gwrandawiad atafaelu yw'r mwyaf o'r canlynol:
- ei werth ar yr adeg y'i cafwyd gan D, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant; neu
- gwerth adeg y gwrandawiad atafaelu, naill ai:
  - yr eiddo a gafwyd; neu
  - os nad yw dal ym meddiant D, neu'r cyfan ohono, gwerth yr eiddo y mae D wedi ei gyfnewid amdano.

**Cam 4: Penderfynu ar y swm adenilladwy**
- budd dyledus D os yw asedau D (swm sydd ar gael) yn hafal i i'r sy'n ddyledus; neu
- y swm sydd ar gael os yw asedau D yn werth llai na ffigwr y budd dyledus; neu
- swm enwol os yw asedau D yn ddim.

**Cam 5: Cymesuredd**
Rhaid i'r llys wneud gorchymyn atafaelu am y swm adferadwy a bennwyd "os, a dim ond i'r graddau, na fyddai'n anghymesur gwneud hynny". Bydd adferiad dyblyg yn anghymesur.

**Gofynion ychwanegol i'w hystyried**
- Os na wneir y gorchymyn am swm y budd, eglurwch pam a chadarnhewch atebolrwydd D am ffigwr llawn y budd.
- Cyfnod yr amser i dalu.
- Beth yw'r cyfnod priodol o garchar am ddiffygdaliad?
- Ystyriwch unrhyw orchmynion eraill sydd i'w talu (e.e. gorchmynion iawndal).
- Ystyriwch a fyddai unrhyw orchmynion gorfodi dibynnol yn briodol.

**Ailystyried a rhyddhau dros dro**
- Gellir gwneud cais i 'gynyddu' gorchymyn atafaelu yn unol ag adran 22, POCA 2002 os na chafodd yr asedau eu datgan adeg y gorchymyn gwreiddiol a/neu os ydynt yn werth mwy.
- Gellir gwneud cais i leihau gorchymyn atafaelu yn unol ag adran 23, POCA 2002, os yw ased yn werth swm is na'i brisiad gwreiddiol.
- Gellir gwneud cais i derfynu'r gorchymyn dros dro mewn amgylchiadau lle nad yw gorfodi'n ymarferol nac yn ddarbodus mwyach. Gellir diddymu hyn.

102

Mwy o wybodaeth yn design102.co.uk
**Dylunio sy'n gwneud gwahaniaeth**